

---

# BWLETIN POLISI CYTÛN

## CYTÛN POLICY BULLETIN

### JUNE / MEHEFIN 2012

---



#### CROESAWU'R NEWYDDION DIWEDDARAF AM ENWAU PARTHAU I GYMRU AR Y WE

Mae'r Prif Weinidog Carwyn Jones a'r Gweinidog Busnes Edwina Hart wedi croesawu'r newyddion bod yr enwau parthau lefel uchel i Gymru -.cymru a .wales – wedi'u rhoi ar restr swyddogol awdurdod y rhyngrywd i'w hystyried.

Os bydd y cais yn llwyddiannus, bydd yn rhoi Cymru ar fap y we a bydd .cymru a .wales yn ymuno ag enwau parthau eraill fel .co.uk a .com sy'n cael eu cydnabod drwy'r byd.

Datgelodd yr Internet Corporation for Assigned Names and Numbers (ICANN) heddiw pa gwmnïau, sefydliadau, busnesau newydd, rhanbarthau daearyddol ac eraill sydd wedi gwneud cais am gael enw parth lefel uchel a beth yw'r enwau hynny. Roedd mwy na 1900 o geisiadau wedi dod i law a Chymru yw un o'r 67 o enwau daearyddol y gwnaed ceisiadau amdanynt.

#### "A DDYLAI CYMRU FOD YN AWDURDODAETH GYFREITHIOL AR WAHÂN?" – DWEUD EICH DWEUD

Mae Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru yn annog pobl i ddweud a ddylai Cymru hefyd fod yn awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ai peidio.

Mae cyfreithiau a wneir yng Nghymru ar gyfer Cymru yn dal yn rhan o gyfraith Cymru a Lloegr. Nid fel hynny y mae yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, gan fod ganddyn nhw awdurdodau cyfreithiol ar wahân. Ym mis Mawrth, lansiodd Llywodraeth Cymru drafodaeth gyhoeddus i ofyn a ddylai Cymru fod yn awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân.

Diben yr ymgynghoriad yw casglu safbwyntiau ynghylch yr agweddau penodol ar awdurdodaeth Gymreig bosib a'r materion sy'n codi fel rhan o'r cwestiynau ehangach canlynol:

- Beth yw ystyr y term "awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân".
- A oes yna nodweddion sy'n hanfodol er mwyn cael awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân, ac os felly, beth ydyn nhw.
- Beth yw canlyniadau posibl cael awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân i Gymru.
- Pa fanteision ac anfanteision a all godi o gael awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru.

Gellir dod o hyd i'r Ymgynghoriad [yma](#).

#### DECHRAU YMGYNGHORIAD AR Y CAMAU I WELLA SAFONAU LLYTHRENNEDD A RHIFEDD

**Mae ymgynghoriad ar fesurau newydd gan Lywodraeth Cymru i wella safonau llythrennedd a rhifedd yn ein hysgolion wedi dechrau.**

Bydd yr ymgynghoriad, a gynhelir rhwng Mehefin 11eg a Hydref 12fed, yn gofyn am farn ar y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol, sydd ill dau yn elfennau allweddol o Raglen Llythrennedd Genedlaethol Cymru. Bydd y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol, a ddaw yn rhan statudol o'r cwricwlwm o fis Medi 2012, yn help i gynllunio'r cwricwlwm a hefyd yn help i athrawon fonitro cynnydd disgyblion ym maes llythrennedd a rhifedd yn erbyn disgwyliaidau blynyddol clir ar gyfer pob dysgwr rhwng 5 a 14 mlwydd oed.

Bwriad y Fframwaith yw helpu ysgolion i nodi'r ffordd orau o herio a chynorthwyo pob un o'u dysgwyr, a rhoi darlun cliriach a mwy cyson i athrawon, i rieni ac i ofalwyr o gynnydd a gallu disgybl. Bydd ysgolion cynradd ac uwchradd yn defnyddio'r Fframwaith fel dull o gynllunio'r cwricwlwm, gan gynnwys dysgu llythrennedd a rhifedd ym mhob pwnc yn hytrach na mewn gwersi Cymraeg, Saesneg a Mathemateg yn unig.

Ochr yn ochr â'r Fframwaith cyflwynir profion darllen a rhifedd. Bydd yn rhaid i bob dysgwr ym Mlynnyddoedd 2 i 9, neu rhwng 7 a 14 mlwydd oed mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru gymryd y ddau brawf, fydd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn cael ei lansio ym mis Ionawr 2013, a daw yn rhan statudol o'r cwricwlwm o fis Medi 2013. Caiff profion darllen a rhifedd eu cyflwyno'n statudol ym mis Mai 2013.

*Gellir dod o hyd i'r ymgynghoriad [yma](#).*

## **CEISIO BARN AR DDYFODOL CYMWYSTERAU YNG NGHYMRU**

**Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ar ddyfodol cymwysterau yng Nghymru yn dilyn cyhoeddi canfyddiadau cychwynnol yr Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc rhwng 14-19, sydd wedi'i lansio ar gyfer ymgynghoriad.**

Mae'r pynciau sy'n cael eu trafod yn y papur a'r cwestiynau sy'n codi yn cynnwys:

- Er mwyn cwrdd â'n anghenion ni yng Nghymru, pa mor bell y dylai cymwysterau ddargyfeirio oddi wrth gymwysterau yn Lloegr? A sut y gallwn ni sicrhau eu bod yn gymwysterau sy'n drwyadl ag iddynt barch yn rhyngwladol?
- Cymwysterau llythrennedd a rhifedd newydd. A oes angen cymwysterau newydd mwy ymestynnol a fyddai'n adlewyrchu galluedd llythrennedd a rhifedd y disgyblion yn well, yn enwedig i gyflogwyr posib?
- Bagloriaeth Cymru. A ddylai hwn ddod yn gymhwyster cyffredinol ledled Cymru? Os felly, pa newidiadau sy'n angenrheidiol? Mae'r Gweinidogion wedi cytuno â barn y Bwrdd y dylid uwchraddio'r cymhwyster i Lefel Uwch er mwyn cynorthwyo dysgwyr wrth iddynt wneud cais am le ar gyfer addysg uwch, ond a ddylid ei raddio ar lefelau eraill?
- Er gwaethaf ychydig o sylwadau negyddol a ymddangosodd yn y cyfryngau yn ddiweddar, mae'r Bwrdd o'r farn bod yna ddealltwriaeth dda o gymwysterau TGAU yn bodoli yma yng Nghymru, a chant eu hystyried yn werthfawr. Ond sut y gellid gwella'r cymwysterau TGAU er mwyn cadw eu gwerth? Yng Nghymru, a ddylwn fabwysiadu newidiadau wrth iddynt godi o Loegr neu ddatblygu cymwysterau TGAU sy'n benodol i Gymru, sy'n drylwyr ac o safon uchel, i adlewyrchu'r cwricwlwm yng Nghymru?

- Mae'r Bwrdd yn credu bod angen symleiddio'r system gymwysterau galwedigaethol. Fodd bynnag, pa feini prawf a ddylid eu defnyddio ar gyfer cymeradwyo cymwysterau galwedigaethol? Sut allwn ni sicrhau eu bod yn drwyadl ac yn berthnasol?

*Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn ac ar ôl casglu rhagor o dystiolaeth, bydd y Bwrdd yn cyflwyno ei adroddiad terfynol a'i argymhellion i'r Dirprwy Weinidog erbyn diwedd y flwyddyn. Gellir dod o hyd i'r papur ymgynghori a manylion pellach [yma](#). Y dyddiad cau ar gyfer yr ymatebion yw 1 Medi 2012.*

## **DEDDFWRIAETH I WNEUD TYLLU COSMETIG YN FWY DIOGEL AR GYFER POBL IFANC**

**Ni fydd pobl ifanc o dan 16 oed yng Nghymru yn gallu cael triniaeth tyllu cosmetig heb ganiatâd eu rhieni neu warcheidwad, os daw deddfwriaeth arfaethedig Llywodraeth Cymru i rym.**

Dyweddodd Gweinidog Iechyd Cymru Lesley Griffiths y byddai'r ddeddfwriaeth hefyd yn cynnwys gwaharddiad llwyr ar dyllu cosmetig mewn manau preifat o'r corff ar gyfer y rhai o dan 18 oed. Dangosodd ymgynghoriad diweddar yn gofyn am farn ar sut mae gwneud tyllu cosmetig yn fwy diogel i bobl ifanc yng Nghymru fod yna gefnogaeth gref i'r ddeddfwriaeth.

Ar hyn o bryd, nid oes cyfyngiad oed ar gyfer tyllu cosmetig. Cyhyd a bod y bobl ifanc yn gallu dangos eu bod yn deall yr hyn sy'n cael ei wneud, a'r risgiau sydd ynghlwm, nid oes arnyn nhw angen caniatâd rhiant neu warcheidwad. Er nad yw twll cosmetig o reidrwydd yn para am byth, mae problemau megis chwyddo, haint, gwaedu, alergedd, rhwygo neu anafiadau yn gyffredin. Weithiau gall dyllu cosmetig beri niwed i'r nerfau a chreithio, ac mae risg fechan iawn o gael firws gwaed fel hepatitis.

O'r 228 o bobl a ymatebodd i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, cytunodd 89% y dylai pobl ifanc gael ganiatâd rheini neu warcheidwaid cyn cael triniaeth tyllu cosmetig, ac roedd 65% o'r farn y dylai pobl ifanc fod yn 16 mlwydd oed cyn y gallan nhw benderfynu ar hyn drostyn nhw eu hunain. Dywedodd 77% o'r bobl a ymatebodd nad oedden nhw'n teimlo y dylid caniatáu i bobl ifanc gael tyllu cosmetig mewn manau preifat o'r corff.

*Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am y cynigion [yma](#).*

## **LLONGYFARCH ENILLWYR CYMREIG GWOBR Y FRENHINES AM WASANAETH GWIRFODDOL**

**Mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, Carl Sargeant, wedi llongyfarch y pedwar mudiad o Gymru sydd wedi ennill Gwobr y Frenhines am Wasanaeth Gwirfoddol yn 2012.**

Crëwyd y wobr gan EM Y Frenhines Elizabeth II yn ystod Dathliadau'r Jiwbilî Aur yn 2002 i gydnabod grwpiau ac unigolion sydd wedi dangos gwasanaeth ac ymrwymiad eithriadol i'w cymunedau. Mae'r anrhydedd gyfwerth â'r anrhydedd MBE sengl. Dyma'r mudiadau sydd wedi derbyn Gwobr y Frenhines am Wasanaeth Gwirfoddol yn 2012:

- Cancer Aid Merthyr Tudful
- Gofal Profedigaeth Cruse Morgannwg
- Cynllun Ymatebwyr Cyntaf Rhaeadr
- Gwirfoddoli Myfyrwyr Bangor

## **SYSTEMAU CHWISTRELLU SY’N ACHUB BYWYDAU YM MHOB CARTREF NEWYDD YNG NGHYMRU O 2013**

**Mae Gweinidog Amgylchedd Cymru, John Griffiths, wedi cyhoeddi cynlluniau a fyddai’n gosod system chwistrellu ym mhob eiddo preswyl newydd ac a addasir yng Nghymru.**

Bydd y Rheoliadau’n cael eu cyflwyno ym mis Medi 2013 yn dilyn pasio Mesur Diogelwch Tân yr AC Llafur Ann Jones yn y Cynulliad diwethaf. Rhagwelir y bydd y cam hwn yn arbed 36 o fywydau ac yn atal tua o 800 o anafiadau rhwng 2013 a 2022.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru hefyd fod canlyniadau dadansoddiad o gost a budd gan BRE Global ynghylch y cynnig wedi’u cyhoeddi. Mae’r adroddiad wedi’i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru [yma](#). Daw i’r casgliad y bydd cyflwyno systemau chwistrellu yn lleihau risg marwolaeth ac anafiadau ynghyd â difrod i eiddo.

Bydd y rheoliadau’n dechrau cael eu datblygu maes o law a bwriedir ymgynghori â’r cyhoedd ynghylch y gofynion technegol angenrheidiol ar gyfer cyflwyno’r Mesur.

Yn ôl ystadegau’r DU ynghylch tân (2001 hyd 2010) ar gyfartaledd ceir 2,168 o danau, 17 o farwolaethau a 503 o anafiadau mewn tanau mewn eiddo preswyl yng Nghymru bob blwyddyn.

## **GRŴP POLISI I ARCHWILIO AC YSTYRIED CYFLOG BYW I GYMRU**

**Mae Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau Cymru, Carl Sargeant wedi cyhoeddi ei fod yn sefydlu Grŵp Polisi i archwilio’r posibilrwydd o gyflog byw i Gymru.**

Mae’r Ganolfan Ymchwil Polisi Cymdeithasol yn cyfrifo mai £7.20 yr awr yw’r cyflog byw yn y DU y tu allan i Lundain. Dyma’r lefel isaf o gyflog sy’n sicrhau safon dderbyniol o fyw. Bydd y Gweinidog yn gwahodd rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn y cyflog byw, gan gynnwys Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, Sefydliad Joseph Rowntree, TUC Cymru ac Achub y Plant i ystyried y mater.

Eisoes mae gweithwyr gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru a’r bobl sy’n gweithio i’r GIG yng Nghymru ymhlith y gweithwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru sy’n cael eu talu £7.20 neu fwy’r awr.

Bydd y Grŵp Polisi yn archwilio’r mater hwn yn fwy manwl ac yn ystyried manteision cyflog byw i Gymru.

## **LLYWODRAETH CYMRU YN CYHOEDDI’R ADRODDIAD CYNTAF AR GYNNYDD**

**Mae buddsoddi mewn twf, sicrhau bod gwasanaethau’r GIG ar gael yn gynt, gwella cyfradd llwyddo prentisiaid a rhoi mwy o gefnogaeth i fusnesau bach ymhlith y cynnydd a amlinellir yn adroddiad blynyddol cynhwysfawr cyntaf Llywodraeth Cymru a ryddhawyd heddiw.**

Mae’r adroddiad blynyddol y *Rhaglen Lywodraethu* – y cofnod mwyaf cynhwysfawr erioed o gynnydd Llywodraeth Cymru – yn amlgu cynnydd dros 300 o ddangosyddion sy’n ymwneud â gwaith y Llywodraeth. Mae’n cyflawni addewid y Prif Weinidog ym mis Medi 2011 i fod yn dryloyw a chyflwyno ystadegau ar gynnydd Cymru fel gwlad, ynghyd â dadansoddiad ohonynt.

Dyma rai o'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru er mis Medi i gyflawni'r *Rhaglen Lywodraethu*:

- Cronfa Fuddsoddi Cymru, gwerth £40 miliwn, ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig eu Maint, i roi benthyciadau i helpu busnesau i ehangu.
- Peilot llwyddiannus Twf Swyddi Cymru, gwerth £75 miliwn, a fydd bellach yn cael ei gyflwyno i greu 4000 o gyfleoedd am swyddi'r flwyddyn i bobl 16 - 24 oed.
- Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru sy'n amlinellu sut y bydd mwy na £3.5 biliwn yn cael ei wario ar brosiectau cyfalaf, fel ysbytai, ysgolion a ffyrdd.
- Cymorth i 4,000 o unigolion rhwng Ebrill 2011 a Mawrth 2012 drwy ein Gwasanaeth Dechrau Busnes, gan greu 660 menter a 1,752 o swyddi.
- Pum Ardal Fenter ar waith ledled Cymru, gyda dau arall wedi'u cyhoeddi.
- Cyfradd lwyddo o 80% ymysg y prentisiaid sy'n cyflawni pob cam o'u hyfforddiant gyda chwmnïau, o'i chymharu â 54% bum mlynedd yn ôl.
- Dros 68% o welliant mewn amserau aros i gleifion er mis Mawrth 2011 i bobl sy'n aros dros 36 wythnos. Mae 94% o gleifion bellach yn aros llai na 26 wythnos am driniaeth.
- Mae cyfraddau clefyd cylchrediad y gwaed ymysg pobl o dan 75 oed yn parhau i leihau.
- Mae cyfraddau ailgylchu gwastraff trefol wedi cynyddu – a dyma'r uchaf yn y DU.
- Gwireddu'r uchelgais o greu llwybr 870 milltir o hyd ar hyd arfordir Cymru. Mae disgwyl iddo ddenu 100,000 o ymwelwyr ychwanegol y flwyddyn.
- Rhoi 165 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ychwanegol ar waith, neu mewn hyfforddiant. Y nod yw recriwtio 500 o swyddogion, eu hyfforddi a'u rhoi ar waith erbyn mis Medi 2013.
- Dyfarnu £100 miliwn i Gronfa Gwyddorau Bywyd Cymru a £50 miliwn i raglen sêr gwyddoniaeth – cronfa ecwiti pwrpasol a rhaglen recriwtio lefel uchel i fuddsoddi mewn busnesau gwyddoniaeth yng Nghymru.
- Cynnydd yn rhoi'r Cynllun Gweithredu Gwella Ysgolion 20-pwynt cynhwysfawr ar waith er mwyn cyflawni'r cynnydd angenrheidiol o ran cyrhaeddiad yn ein system addysg.
- Troi llawer o'r 22,000 o eiddo sector cyhoeddus gwag yn gartrefi drwy'r Gronfa Benthyciadau Ailgylchadwy, 'Troi Tai'n Gartrefi', sydd werth £10 miliwn.
- Bod y cyntaf ym Mhrydain i gyflwyno dyletswyddau cydraddoldeb penodol i helpu awdurdodau cyhoeddus i gael gwared ar wahaniaethu, hybu cyfle cyfartal a magu cydberthnasau da.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu cardiau teithio rhad i dros 650,000 o bobl dros 60, a'r rhai sydd ag anabledau a'u gofalu. Mae dros 1,000 o ysgolion yn derbyn brecwast am ddim ar gyfer eu disgyblion a chafodd plant dros 460,000 o wersi nofio yn rhad ac am ddim yn 2011.

Ar ben hyn, Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i gyflwyno tâl am fagiâu plastig untro. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod pobl Cymru eisoes yn defnyddio llawer iawn yn llai o fagiâu a bod rhai siopau wedi gweld gostyngiad o hyd at 90% yn y defnydd o fagiâu plastig.

Gellir dod o hyd i'r Rhaglen Lywodraethu [yma](#).

## **CYLLID NEWYDD AR GYFER CYNHESU CARTREFI A CHYNORTHWYO BUSNESAU**

Mae Gweinidog Amgylchedd Cymru, John Griffiths, wedi lansio ail gam cynllun buddsoddi ynni Llywodraeth Cymru, "arbed."

Bydd £45m yn cael ei fuddsoddi yn ystod ail gam arbed er mwyn sicrhau bod tua 4,800 o gartrefi ychwanegol yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru yn defnyddio ynni'n fwy effeithlon. Daw yn sgil llwyddiant cam cyntaf arbed, a welodd fuddsoddiad o dros £66 miliwn ar fesurau i sicrhau bod tua 7500 o gartrefi Cymru yn defnyddio ynni'n fwy effeithlon.

Yn ystod cam cyntaf arbed, cafodd 70% o'r cynnyrch a osodwyd eu gweithgynhyrchu yng Nghymru, ac roedd dros 80% o'r gosodwyr wedi'u lleoli'n rhannol neu'n gyfan gwbl yng Nghymru. Bydd ail gam arbed yn cael ei ddarparu gan ddau reolwr cynllun, Melin Homes yn y de a Wilmott Dixon yng ngogledd a chanolbarth Cymru.

Gallwch ddysgu mwy am Arbed [yma](#).

**GERAINT HOPKINS,**

**SWYDDOG POLISI,**

**CYTŪN – EGLWYSI YNGHYD YNG NGHYMRU**